# Cyfrifiad 2021
# **Sut i gael help**



Swyddfa Ystadegau Gwladol

ni sy'n cyfrif
**cyfrifiad** 2021

CGLFB32VAB3

# Census 2021
# **How to get help**



Office for National Statistics

it's about us
**census** 2021

CGLFB32VAB3

## Mae'r cyfrifiad yma

Mae'n llywio penderfyniadau am y pethau sydd o bwys i'ch cymuned.

Mae'r daflen hon yn amlinellu'r amrywiaeth eang o gymorth hygyrchedd sydd ar gael i'ch helpu chi i gymryd rhan yng **Nghyfrifiad 2021**.

Mae'n bwysig eich bod chi'n llenwi holiadur y cyfrifiad oherwydd mae'n darparu'r wybodaeth fwyaf manwl sydd gennym am ein cymdeithas. Rhaid i chi gwblhau'r cyfrifiad yn ôl y gyfraith.

Mae data o'r cyfrifiad yn helpu i lywio penderfyniadau am ariannu gwasanaethau cyhoeddus yn eich ardal chi. P'un a yw hynny'n golygu cynllunio ysgolion, meddygfeydd neu lwybrau beicio newydd, bydd y wybodaeth y byddwch chi'n ei rhannu yn effeithio ar fywydau pawb sy'n byw yng Nghymru a Lloegr.

## Pryd y dylwn i lenwi holiadur y cyfrifiad?

Diwrnod y Cyfrifiad yw **dydd Sul 21 Mawrth**, ond gallwch chi lenwi eich holiadur chi cyn gynted ag y byddwch chi wedi cael eich cod mynediad drwy'r post.

Dylai eich atebion chi sôn am y bobl sy'n byw yn eich cartref chi fel arfer ar y dyddiad hwn – hyd yn oed os byddwch chi'n ei lenwi cyn hynny.

Os bydd amgylchiadau eich cartref yn newid ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, gallwch chi roi gwybod i ni.



## The census is here

It informs decisions about the things that matter to your community.

This leaflet outlines the wide range of accessibility support available to help you take part in **Census 2021**.

It's important to fill in your census questionnaire because it gives us the most detailed information we have about our society. You must complete the census by law.

Census data helps inform funding decisions on public services in your area. Whether it's planning new schools, doctors' surgeries or bike lanes, the information you share has an impact on the lives of everyone living in England and Wales.

## When should I fill in my census questionnaire?

Census Day is **Sunday 21 March** – but you can fill yours in as soon as you get your access code in the post.

Your answers should be about the people who usually live in your household on this date – even if you're filling it before then.

If your household circumstances change on Census Day, you can let us know.

## Pa gymorth sydd ar gael?

Rydym ni'n ceisio ei gwneud hi'n hawdd i bawb gymryd rhan yng **Nghyfrifiad 2021**. Ond, os bydd angen help arnoch chi, rydym ni yma i helpu.

Mae'r daflen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i'ch **helpu chi i gael cymorth**, beth bynnag yw eich anghenion.

Dros y dudalen, fe welwch chi'r help sydd ar gael os oes gennych chi, neu unrhyw un rydych chi'n ei adnabod, unrhyw rai o'r anghenion isod:

- **byddar, nam ar y lleferydd neu nam ar y clyw**
- **angen cymorth ieithyddol**
- **dall neu'n rhannol ddall**
- **diffyg hyder ar lein**
- **anableddau dysgu neu namau gwybyddol**
- **mynediad cyfyngedig ar lein**
- **namau corfforol**

## What support is available?

We're aiming to make it easy for everyone to take part in **Census 2021**. But if you need help, we've got it covered.

In this leaflet, you will find all the information you need to **help you get support**, whatever your needs.

Overleaf, you will find the help available if you, or anyone you know, has any of the following needs:

- **deaf, speech or hearing impairments**
- **need language support**
- **blind or partially sighted**
- **lack confidence online**
- **learning disabilities or cognitive impairments**
- **limited online access**
- **physical impairments**

# Y cymorth sydd ar gael

## Byddar, nam ar y lleferydd neu nam ar y clyw

Mae holiadur ar-lein y cyfrifiad yn gydnaws â'r rhan fwyaf o dechnolegau cynorthwyol. Ar wefan y cyfrifiad, mae **fideos sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac is-deitlau** yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gymryd rhan. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, gallwch ffonio ein **gwasanaeth text relay** (gweler yr adran 'Cysylltu â ni' am fanylion).

## Diffyg hyder ar lein

Ein nod yw gwneud pethau mor hawdd â phosibl i bawb ond, os bydd angen cymorth arnoch chi i gwblhau eich cyfrifiad ar lein, rydym ni yma i helpu. Mae ein staff ar gael dros y ffôn neu ar lein i roi cymorth ac arweiniad ymarferol.

Os na allwch chi fynd ar lein, mae Canolfannau Cymorth y Cyfrifiad ar gael ledled Cymru a Lloegr*. Os yw'n well gennych, **gallwch chi ofyn am holiadur papur**.

**Cysylltwch â ni** i ofyn am y cymorth uchod.

# Available support

## Deaf, speech or hearing impairments

The online census questionnaire is compatible with most assistive technologies. On the census website, you will find **videos using BSL and subtitles** that contain all the information you need to take part. If you have any questions, you can ring our **text relay service** (see 'Get in touch' section for details).

## Lack confidence online

We aim to make things as easy as possible for everyone, but if you need support to complete your census online, we're here to help. Our staff are available on the phone or online to provide practical support and guidance.

If you cannot get online, Census Support Centres are available across England and Wales*. If you prefer, **you can request a paper questionnaire**.

To ask for any of the above help, **get in touch**.

## Anableddau dysgu neu namau gwybyddol

Er mwyn eich helpu chi i gymryd rhan yn y cyfrifiad, rydym ni wedi creu taflen wybodaeth **hawdd ei deall. Ffoniwch ni i ofyn am daflen**.

## Namau corfforol

**Mae ein staff ar gael** gydag amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth i'ch helpu chi i lenwi eich holiadur. **Cysylltwch â ni am gyngor**.

## Dall neu'n rhannol ddall

Mae'r rhan fwyaf o dechnolegau cynorthwyol yn gydnaws â holiadur ar-lein y cyfrifiad, ac rydym ni wedi creu **fideos gyda sain** i rannu canllawiau pwysig.

Gallwch chi archebu **llyfryn canllaw braille**, sy'n cynnwys gwybodaeth a chyfieithiadau o gwestiynau'r cyfrifiad. Gallwch chi hefyd archebu pecyn holiadur papur **print mawr**.

I gael help neu i archebu, **cysylltwch â ni**.

## Learning disabilities or cognitive impairments

To help you take part in the census, we've created an **easy read** information leaflet. **Call us to request one**.

## Physical impairments

Our **staff are available** with a wide range of support services to help you fill in your census. **Get in touch for advice**.

## Blind or partially sighted

Most assistive technologies are compatible with the online census questionnaire, and we have created **videos with audio** to share important guidance.

You can order a **braille guidance booklet**, which includes information and translations of the census questions. You can also order a **large-print** paper questionnaire pack.

For help or to order, **get in touch**.

## Cymorth ieithyddol

Mae **llyfrynnau canllaw** ar gael mewn 19 o ieithoedd yng Nghymru o **www.cyfrifiad.gov.uk/ieithoedd** ac mewn 49 o ieithoedd yn Lloegr o **www.census.gov.uk/languages.** Maen nhw'n cynnwys gwybodaeth a chyfieithiadau o'r holl gwestiynau yn holiadur y cyfrifiad.

Os hoffech chi ofyn cwestiwn gan ddefnyddio **cyfieithydd**, gallwch chi ffonio'r llinell gymorth iaith am ddim (gweler yr adran 'Cysylltu â ni' am fanylion). Os na fydd rhywun ar gael ar unwaith, gallwch chi drefnu apwyntiad yn nes ymlaen.

## Mynediad cyfyngedig ar lein

Os na allwch chi fynd ar lein, peidiwch â phoeni.

Mae Canolfannau Cymorth y Cyfrifiad yn rhoi cymorth a **mynediad at ddyfeisiau, fel cyfrifiaduron a llechi**, i'ch helpu i lenwi ffurflen y cyfrifiad*. Mae'r rhain mewn lleoliadau cyfleus ledled Cymru a Lloegr. Ffoniwch ni am ddim i ddod o hyd i'ch canolfan agosaf.

Os yw'n well gennych, gallwch chi ofyn am holiadur papur **drwy ein ffonio ni am ddim**.

Os bydd angen help arnoch chi, ewch i **www.cyfrifiad.gov.uk**

**@Cyfrifiad2021**

## Language support

**Guidance booklets** are available in 49 languages in England from **www.census.gov.uk/languages** and 19 languages in Wales from **www.cyfrifiad.gov.uk/ieithoedd**. They provide information and translate all the questions in the census questionnaire.

If you'd like to ask a question using an **interpreter**, you can call the free language helpline (see 'Get in touch' section for details). If someone is not immediately available, you can book an appointment for later.

## Limited online access

If you are not able to get online, do not worry.

Our Census Support Centres provide support and **access to devices, such as computers and tablets,** to help you fill in your census form*. These are conveniently located across England and Wales. Call us free to find your nearest centre.

If you prefer, you can request a paper questionnaire by **calling us free**.

If you need help, visit **www.census.gov.uk**

**@Census2021**

# Cysylltu â ni

Gwefan a gwe-sgwrs
**www.cyfrifiad.gov.uk**

Rhadffôn
Cymru **0800 169 2021**
Lloegr **0800 141 2021**
Neges destun **86677**

Gwasanaeth text relay
Cymru **(18001) 0800 169 2021**
Lloegr **(18001) 0800 141 2021**

Llinell gymorth iaith am ddim
**0800 587 2021**

## Canolfannau Cymorth y Cyfrifiad

Mae Canolfannau Cymorth lleol y Cyfrifiad ar gael ledled Cymru a Lloegr*.

I ddod o hyd i'ch canolfan agosaf, ffoniwch ni am ddim ar **0800 169 2021**

*dim ond pan fydd yn ddiogel gwneud hynny ac yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.

# Get in touch

Website and webchat
**www.census.gov.uk**

Free phone
England **0800 141 2021**
Wales **0800 169 2021**
Text **86677**

Text relay service
England **(18001) 0800 141 2021**
Wales **(18001) 0800 169 2021**

Free language helpline
**0800 587 2021**

## Census Support Centres

Local Census Support Centres are available across England and Wales*.

To find your nearest centre, call free on **0800 141 2021**

*only when it's safe to do so and following government guidance.

# Diwrnod y Cyfrifiad yw dydd Sul **21 Mawrth**

Mae'n hawdd cymryd rhan. Os bydd angen help arnoch chi i lenwi eich ffurflen, rydym ni yma i helpu.

**Byddwn ni'n anfon llythyr sy'n cynnwys cod mynediad atoch chi.**

**Ewch i'n gwefan ddiogel a nodwch eich cod mynediad i ddechrau arni.**

Os bydd angen help arnoch chi, neu ar unrhyw un rydych chi'n ei adnabod, mae amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth ar gael.

Os bydd angen help arnoch chi, ewch i **www.cyfrifiad.gov.uk**

**@Cyfrifiad2021**

Swyddfa Ystadegau Gwladol

cyfrifiad 2021

# Census Day is Sunday **21 March**

It's easy to take part. If you need help to fill in your form, we've got it covered.

**We will send you a letter with an access code.**

**Visit our secure website and enter your access code to get started.**

If you, or anyone you know, needs help, a wide range of support services are available.

If you need help, visit **www.census.gov.uk**

**@Census2021**

Office for National Statistics

census 2021